





Llwybr Hanes

Llangollen

History Trail



Cerddwch ymlaen am ½ milltir/0.8km i Fryn Hyrddyn.

Walk on for ½ mile/0.8km to Velvet Hill.

Yn ôl rhai pobl mae'r enw Bryn Hyrddyn yn cyfeirio at ysgerbwdd hir a ddatguddiwyd o dan **Biler Eliseg**.

Velvet Hill gets its name from the soft texture of the sheep-cropped grass and moss. Its Welsh name, Coed Hyrddyn, means 'wood of the long man' and may relate to the tall skeleton unearthed beneath nearby **Eliseg's Pillar**.



Ar ôl cerdded am ¾ milltir/1km arall fe gyrhaeddwch Abaty Glyn y Groes.



A ¾ mile/1km walk brings you to Valle Crucis Abbey.

Ar un cyfnod **Abaty Glyn y Groes** oedd ail abaty Cymru o ran cyfoeth. Tintern oedd y cyfoethocaf. Mynachod Sistersaidd a'i sefydlodd yn 1201. Bu pobl yn byw yn yr abaty tan gyfnod Diddymu'r Mynachlog yn 1537. Cyfeiria'r enw at Biler Eliseg cyfagos, sef croes carreg o'r nawfed ganrif a osodwyd er cof am un o arweinwyr cynharaf Powys.

Valle Crucis Abbey was once the second richest abbey in Wales, after Tintern. Founded by Cistercian monks in 1201, the abbey was lived in until the Dissolution of the monastery in 1537. The name means 'Valley of the Cross' and refers to nearby Eliseg's Pillar, a 9th century stone cross set up in memory of an early ruler of Powys.



O Abaty Glyn y Groes dilynwch am 2 filltir/3km i Gastell Dinas Bran.



From Valle Crucis, follow the for 2 miles/3km to Dinas Bran Castle.

Adeiladwyd **Castell Dinas Bran** yn yr 1260au gan y Tywysog Gruffudd ap Madog i warchod y ffordd strategol drwy ddyffryn yr Afon Ddyfrdwy. Bu oes gweithio'r Castell yn un fer, ac fe'i gadawyd yn 1282. Yn y murddun trawiadol ceir tyrau ar ffurf y llythyren D, sef cynllun a oedd yn hoff gan y Cymry.

Built in the 1260s by a local Welsh ruler, Prince Gruffudd ap Madoc, to guard the strategic route through the Dee valley, **Dinas Bran Castle** had a short working life and was abandoned in 1282. The picturesque ruins features a D-shaped tower – a design favoured by the Welsh.



O Gastell Dinas Bran, mae'r llwybr yn troi'n ôl am ½ milltir/1km ac i lawr i Llangollen



From Dinas Bran Castle, the ½ mile/1km route heads back downhill to Llangollen.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych Denbighshire Countryside Service

☎ 01352 810614
Ebost: parcgwledig.loggerheads@sirddinbych.gov.uk
www.sirddinbych.gov.uk/cefnngwlad
Email: loggerheadscountrypark@denbighshire.gov.uk
www.denbighshire.gov.uk/countryside

www.llwybraudyffryndyfrdwy.com

www.deevalleywalks.com



Copyright © Denbighshire County Council 2004

dewis diwylliant a hamdden yn Sir Ddinbych
choosing culture and leisure in Denbighshire



Llwybr Hanes Llangollen History Trail

Map: Explorer 255
Cychwyn: Canol tref Llangollen
Pellter: 6 milltir/9.5km
Amser: Hyd at 6 awr
Graddfa: y rhannau'n amrywio

OS Map: Explorer 255
Start: Llangollen town centre
Distance: 6 miles/9.5km
Duration: Allow up to 6 hours
Difficulty: Sections vary.



DEWCH i ddarganfod hanes tref Llangollen a dyffryn yr Afon Ddyfrdwy wrth gerdded y llwybr cylchol hwn gydag arwyddion hawdd-eu-dilyn arno. Bydd y golygfeydd syfrdanol, y wlad hardd a'r doreth o fywyd gwyllt yn ei gwneud yn daith gerdded wirioneddol gofiadwy.



EXPLORE the history of Llangollen and the surrounding Dee valley on this easy-to-follow, waymarked circular trail. Stunning views, beautiful countryside and a wealth of wildlife make it a truly memorable walk.

 *Cerddwch i lawr Stryd y Castell yng nghanol tref Llangollen, croesi'r bont a dilyn yr arwyddion am 1/2 milltir/0.5km i Gamlas Llangollen.*

Walk down Castle Street, in Llangollen town centre, over the bridge and follow the waymarkers for 1/2 mile/0.5km to the Llangollen Canal.

Agorodd **Camlas Llangollen** yn 1805 er mwyn cludo llechi o'r chwareli cyfagos i ddinasoedd Lloegr oedd yn tyfu'n gyflym ar y pryd, ond pan ddaeth y rheilffyrdd, buan iawn yr aeth y cwmnïoedd camlesi'n fethdalwyr. Sefydlwyd cwmni cychod plaser Glanfa Llangollen yn 1884, a gall ymwelwyr barhau i fwynhau taith ar gwch gyda cheffyl yn ei dynnu hyd heddiw.

The **Llangollen Canal** opened in 1805 to carry slate from nearby quarries to the growing cities of England. But with the coming of the railways, the canal companies soon faced bankruptcy. The Llangollen Wharf pleasure boat company was founded in 1884, and visitors can still enjoy the horse-drawn boats today.



 *Bydd yr arwyddion yn eich tywys ar hyd y llwybr tynnu am 2 filltir/3km hyd at Raeadr y Bedol.*

 *The waymarkers will lead you along the towpath for 2 miles/3km to the Horseshoe Falls.*

Hawdd/Easy



Canolig/Medium



Anodd/Difficult



Argae ar siâp hanner cylch yw **Rhaeadr y Bedol**. Y Peiriannydd enwog Thomas Telford a'i gynlluniodd yn 1806 i gyflenwi dŵr i'r Shropshire Union Canal. Am fod y gamlas yn tynnu cymaint o ddŵr o'r afon Ddyfrdwy gorfodwyd i nifer o felinau lleol fynd allan o fusnes.

The **Horseshoe Falls** is a picturesque semi-circular weir designed by the famous engineer Thomas Telford in 1806 to supply water to the Shropshire Union Canal. However, the canal took so much water from the river Dee that many of the local mills were forced out of business.

 *Cerddwch yn eich blaen am 1/2 milltir/0.5km i Eglwys Llantysilio.*

Continue for 1/2 mile/0.5km to Llantysilio Church.

Saif **Eglwys Llantysilio** ar dir uchel i'r gogledd o Raeadr y Bedol. Yn wreiddiol, roedd yma eglwys fechan a adeiladwyd tua 1254. Adnewyddwyd yr eglwys yn llwyr yn 1869 yn ystod oes Fictoria. Y tu mewn i'r eglwys gwelir darllenfwrdd derw canoloesol prin ar ffurf eryr a ddau ffigur o wydr lliw o'r 15fed ganrif a osodwyd yn y ffenest ogleddol, sydd yn ddiweddarach.

Llantysilio Church occupies high ground just north of the Horseshoe Falls. Originally a small chapel built around 1254, the church was thoroughly restored by the Victorians in 1869. Inside are a rare medieval oak eagle lectern and two small 15th-century stained glass figures incorporated into the later North window.

Chwiliwch am...

Gwelir adar ysglyfaethus yn aml yn yr avyr uwchben dyffryn yr Afon Ddyfrdwy. Edrychwch am y bwncathod mawr yn ymgylchu ar eu hadenydd llydain ac yn 'mewian' yn uchel; neu'r cudyll coch, sydd yn aderyn llai, yn hofran oddi uchod. Efallai y gwelwch yr hebog tramor yn dal ei ysglyfaeth wrth iddo hedfan.

Look Out For...

Birds of prey are common in the Dee valley skies. Watch for large buzzards circling on outstretched wings and 'mewing' loudly, or smaller kestrels hovering overhead. You may even see a peregrine catch its prey in mid air.



Cerddwch ar Llwybr Hanes Llangollen

CERDDED YDY'R FFORDD ORAU i weld hanes cyfoethog Llangollen a Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy.

Wrth ddilyn y llwybr, sydd ag arwyddion eglur ar ei hyd, byddwch yn cerdded mewn cylch hanesyddol diddorol. Ewch am dro hamddenol ar hyd Camlas Llangollen a gweld Rhaeadr y Bedol ryfeddol o waith Telford. Mwynhewch Eglwys Llantysilio ac Abaty Glyn y Groes. Edrychwch i lawr o uchelfannau Castell Dinas Brân.



Oherwydd y golygfeydd syfrdanol, y cefn gwlad hardd a'r bywyd gwyllt toreithiog mae hon yn daith gerdded i'w chofio.

OS Map: Explorer 255
Cychwyn: Canol Tref Llangollen
Pellter: 6 milltir/10 km
Amser: Caniatewch hyd at 6 awr i gerdded y cylch yn grwn.

Mae logo gwahanol ar arwyddion pob rhan o'r daith.

Each section is waymarked with a different logo.

Am fwy o wybodaeth cymerwch daflen y daith gerdded a map o Ganolfan Groeso Llangollen.



Walk the Llangollen History Trail


THE BEST WAY TO EXPLORE the rich history of Llangollen and the surrounding Dee valley is on foot.

The easy-to-follow, waymarked trail takes you on a fascinating historical circuit. Stroll along the leafy Llangollen Canal, and see Telford's remarkable Horseshoe Falls. Enjoy the tranquillity of Llantysilio Church and Valle Crucis Abbey, and look down from lofty Castle Dinas Bran.

Stunning views, beautiful countryside and a wealth of wildlife make this a memorable walk.

OS Map: Explorer 255
Start: Llangollen town centre
Distance: 6 miles/10 km
Duration: Allow up to 6 hours for the complete circuit.

For more details, pick up a walking leaflet and map at the Llangollen Tourist Information Centre.



Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
 ☎ 01352 810614
 Epost: parcgwledig.loggerheads@sirddinbych.gov.uk
 www.sirddinbych.gov.uk/cefn gwlad
 Denbighshire Countryside Service
 Email: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
 www.denbighshire.gov.uk/countryside



dewis diwylliant a hamdden yn Sir Ddinbych
 choosing culture and leisure in Denbighshire

www.llwybraudyffryndyfrdwy.com
www.deevalleywalks.com